# Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn 16 Gorffennaf 2002

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

## Cwestiynau i Brif Weinidog Cymru

### Camddefnyddio Sylweddau

**C13 Christine Gwyther:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar y mesurau sy'n cael eu cymryd i atal pobl rhag camddefnyddio sylweddau ym mhob rhan o Gymru? (OAQ19010)

**Prif Weinidog Cymru (Rhodri Morgan):** Yng Nghymru, mae'r pum tîm gweithredu ar gyffuriau ac alcohol yn bwrw ymlaen â'r strategaeth wyth mlynedd ei hyd, 'Delio â Chamddefnyddio Sylweddau yng Nghymru: Y Dull Partneriaeth'. At ei gilydd, mae 22 o dimau gweithredu lleol yn cynorthwyo'r timau gweithredu ar gyffuriau ac alcohol wrth roi'r strategaeth ar waith, ar sail asesiad o anghenion lleol. Mae adolygiad o driniaeth a gwaith ailsefydlu yn cael ei wneud ar hyn o bryd, a'i nod yw ymdrin â materion o bryder ynghylch mynediad i'r gwasanaethau hyn, a'u hargaeledd, drwy ranbarthau Cymru.

### Adeiladu Ysgolion ar Dir Halogedig

**C14 Gareth Jones:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar adeiladu ysgolion ar dir halogedig? (OAQ18999) [W]

**Prif Weinidog Cymru:** Mae deddfwriaeth a pholisi cynllunio cyfredol yn gosod fframwaith o ddyletswyddau ar awdurdodau lleol, ac os cânt eu gweithredu'n briodol, byddant yn sicrhau na chaiff ysgolion eu hadeiladu ar safleoedd anaddas. Anfonir llythyr at yr awdurdodau cynllunio lleol cyn bo hir i dynnu eu sylw at y polisi cynllunio cyfredol o ran datblygiadau ar dir halogedig.

*Tynnwyd cwestiwn 15 (OAQ19011) yn ôl.*